Gêm Fwrdd *Ffosileiddio Ffyrnig!*

Mae ffosilau yn dangos i ni sut fyddai bywyd ar y Ddaear filiynau o flynyddoedd yn ôl, ond o'r holl anifeiliaid a phlanhigion sydd erioed wedi byw, dim ond canran fechan iawn sydd wedi goroesi fel ffosilau – ac ychydig iawn o'r rheiny sydd wedi'u darganfod a'u cadw mewn amgueddfeydd. Mae'r gêm fwrdd hwyliog *Ffosileiddio Ffyrnig!* yn gyfle i ddysgu pam hynny. Y nod yw bod yn anifail Jwrasig a cheisio troi'n ffosil i gael eich arddangos mewn amgueddfa.

Bydd cyfle i ddysgu:

- Am rai o'r anifeiliaid oedd yn byw yn y moroedd yn y cyfnod Jwrasig, 200 miliwn o flynyddoedd yn ôl.
- Pa amodau sydd eu hangen i ffosileiddio anifeiliaid.
- Am y prosesau biolegol a daearegol all ddinistrio ffosilau neu eu hatal rhag ffurfio.
- Pa anifeiliaid sydd fwy tebygol o gael eu ffosileiddio, a pham.

Mae'r gêm fwrdd hon wedi'i chyflwyno'n llwyddiannus i grwpiau ysgol o'r Cyfnod Sylfaen, Cyfnodau Allweddol 2, 3 a 4 yn ogystal â grwpiau teulu o bob oed.

Yn ogystal â bod yn berthnasol i elfennau gwyddonol y cwricwlwm, mae'r gweithgaredd yn helpu i ddatblygu sgiliau Rhifedd a Llythrennedd.

Cafodd yr adnodd ei ddatblygu fel gweithgaredd Wythnos Gwyddorau'r Ddaear i'r cyhoedd, a'i gynhyrchu gyda chymorth grant y Gymdeithas Ddaearegol.

Fossilization Frenzy! Board Game

Fossils show us what life on Earth was like millions of years ago, but of all the animals and plants that have ever lived, only a very small proportion have been preserved as fossils, and very few of those have been found by collectors and brought to the museum. Fossilization Frenzy! is a fun board game that gives learners the chance to explore why this is, by becoming an animal living in the Jurassic sea and trying to become a fossil on display in the museum.

Learners will:

- Become familiar with some of the animals that lived in the seas during the Jurassic Period, 200 million years ago.
- Discover the conditions that are needed to fossilize animals.
- Learn about the biological and geological processes that can destroy fossils or stop them from being formed.
- Discover which animals are more likely to become fossilized and why.

This board game has been successfully delivered to school groups from Foundation Phase, Key Stages 2, 3 and 4, as well as family groups of all ages.

In addition to being relevant to Science components of the curriculum, this activity helps to develop Numeracy and Literacy skills.

A Geological Society grant funded the production of this resource, which was originally developed as an Earth Science Week activity for the general public.

Sut i chwarae *Ffosileiddio Ffyrnig!*

Bydd angen:

Bwrdd *Ffosileiddio Ffyrnig!*

Darnau chwarae anifeiliaid (amonit, slefren fôr, crinoid, ichthyosaur mawr a bach)

Dis – gyda dau rif 1, dau rif 2 a dau rif 3

Nod y gêm:

Bod yn anifail Jwrasig sy'n cael ei ffosileiddio a'i arddangos mewn amgueddfa

Sut i chwarae:

Pob chwaraewr i ddewis anifail Jwrasig a chymryd troeon i rolio'r dis. Symud o gwmpas y bwrdd gan ddilyn y cyfarwyddiadau o dan bob llun. Yr enillydd yw'r cyntaf i gyrraedd y casyn arddangos.

Nodiadau:

Mae'r gêm yn gweithio orau fel gweithgaredd wedi'i chynorthwyo, fel y gellir esbonio'r gwahanol gamau a phrosesau. Mae wedi'i dylunio i ddangos bod ffosileiddio yn ddigwyddiad anghyffredin a bod rhai anifeiliaid, fel y slefren fôr, ddim yn ffosileiddio'n hawdd.

Mae'n syniad da bod â sbesimenau go iawn o'r gwahanol rannau chwarae. Gall rhain fod mewn casyn arddangos ar ddiwedd y gêm neu gall chwaraewyr eu trin a'u trafod wrth chwarae.

Fossilization Frenzy! - How to play

You will need:

Fossilization Frenzy board

Animal player pieces (ammonite, jelly fish, crinoid, large and small ichthyosaur)

Dice – customised to have 2 x number 1, 2 x number 2 and 2 x number 3

Aim of the game:

For a Jurassic animal to become fossilized and end up on display in a museum

How to play:

Each player chooses a Jurassic animal and takes turns to roll the dice. They move around the board following the instructions under each picture. The winner is the first one to reach the display case.

Notes:

The game is best played as a facilitated activity so that the different stages and processes can be explained. It is designed to illustrate that fossilization is an uncommon event and that certain animals, such as the jelly fish do not fossilize easily.

It is a good idea to have actual specimens of the different fossil player pieces. These can be in a display case at the end of the game or ones that people can handle.